**COFNODION O BENDERFYNIADAU'R WEITHREDIAETH**

**BWRDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL Y CABINET**

**25 IONAWR 2024**

**Aelodau'r Cabinet:**

Y Cynghorwyr: J.Hale, S.Harris ac A.Llewelyn

**Swyddogion yn Bresennol:**

A.Jarrett, C.Howard, K, Warren, A.Thomas, N.Jones, A.Thomas ac I.Guy

**Swyddfa Archwilio Cymru:**

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd Hale yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Deuir â chofnodion 16 Tachwedd, 2023 i gyfarfod nesaf y pwyllgor i'w cymeradwyo.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH 23/24

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

## 6. AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR 2022 - 23

**Penderfyniad:**

Bod Aelodau'n nodi ac yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2022-23 fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad a gylchredwyd i'w argymell i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Sicrhau bod Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot yn bodloni'r gofynion fod yn rhaid i bob awdurdod lleol lunio adroddiad blynyddol ar gyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a ddaeth ben am 9am ddydd Llun, 30 Ionawr 2023.

## 8. CYNLLUN STRATEGOL TAI A DIGARTREFEDD

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r asesiad effaith integredig, argymhellir bod yr Aelodau'n cymeradwyo Cynllun Strategol Tai a Digartrefedd 2024-2027, fel y nodwyd yn Atodiad 1.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Darparu cynllun gweithredu strategol i'r Adran Tai a Chymunedau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i gymunedau Castell-nedd Port Talbot.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a ddaeth ben am 9am ddydd Llun, 30 Ionawr 2023.

## 9. CYNLLUN STRATEGOL GOFAL CYMDEITHASOL PLANT A PHOBL IFANC CASTELL-NEDD A PHORT TALBOT 2023-2026

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, argymhellir bod yr Aelodau'n cymeradwyo Cynllun Strategol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot 2023-26 fel y nodwyd yn Atodiad 1.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Sicrhau bod ystod o ofal a chefnogaeth o ansawdd da ar gael i ddiwallu anghenion plant agored i niwed sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a ddaeth ben am 9am ddydd Llun, 30 Ionawr 2023.

## 10. STRATEGAETH GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION CASTELL-NEDD PORT TALBOT 2023-2026

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, argymhellir bod yr Aelodau'n cymeradwyo Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion Castell-nedd Port Talbot 2023-26 fel y nodwyd yn Atodiad 1.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Sicrhau bod ystod o ofal a chefnogaeth o ansawdd da ar gael i ddiwallu anghenion oedolion sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a ddaeth ben am 9am ddydd Llun, 30 Ionawr 2023.

## 11. EITEMAU BRYS

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

## 12. MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD

**Penderfyniad:**

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff eithrio 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (lle bo'n briodol).

## 13. CYNLLUN STRATEGOL TAI A DIGARTREFEDD - ATODIAD 6 A 7 (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 15)

Dyma'r atodiadau preifat a oedd yn ymwneud ag eitem 8 yr agenda, Cynllun Strategol Tai a Digartrefedd 2024 - 2027 ac ni chawsant eu trafod yn y cyfarfod.

### 14. CYNLLUN STRATEGOL GOFAL CYMDEITHASOL PLANT A PHOBL IFANC CASTELL-NEDD PORT TALBOT 2023-2026 - ATODIAD 5 (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14 )

Dyma'r atodiadau preifat a oedd yn ymwneud ag eitem 9 ar yr agenda, Cynllun Strategol Gofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot 2023 - 2026, ac ni chawsant eu trafod yn y cyfarfod.

## 15. ACHOS BUSNES AR GYFER SEFYDLU GWASANAETH LLEOLI OEDOLION MEWN TEULUOEDD MEWNOL

**Penderfyniad:**

Bod aelodau'n rhoi caniatâd i Swyddogion wneud y paratoadau angenrheidiol i ddod â'r Gwasanaeth Lleoli Oedolion mewn Teuluoedd yn fewnol gan gynnwys:

- Cyflwyno rhybudd i'r darparwr presennol ('Ategi') nad yw'r Cyngor yn bwriadu adnewyddu ei gontract ar ôl i'r trefniant presennol ddod i ben ar 30 Ebrill 2024.
- Ymgysylltu ag Ategi fel bod trefniadau TUPE posibl yn cael eu cymhwyso gyda'r bwriad o sefydlu tîm mewnol y Cyngor.
- Gweithredu system bandio taliadau ar gyfer teuluoedd sy'n derbyn, gan gynnwys archwilio'r posibilrwydd o gynyddu taliadau wedi'u cyllido o fis Ebrill 2024.
- Cymeradwyo awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion ymrwymo i gytundeb gyda Chyngor Abertawe i redeg y gwasanaeth ar ei ran.

**Rhesymau dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Ystyried yr adnoddau gofal cymdeithasol sydd ar gael wrth gynnal asesiad neu ailasesiad o anghenion unigolion; sicrhau bod ystod gynaliadwy o wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion o ansawdd da ar gael i ddiwallu anghenion dinasyddion mwyaf agored i niwed Castell-nedd Port Talbot; cyfrannu tuag at yr arbedion cyllidebol a nodwyd ym Mlaengynllun Ariannol y Cyngor; a chyfrannu at nod Llywodraeth Cymru i ail-gydbwyso’r farchnad gofal cymdeithasol drwy symud gwasanaethau i ffwrdd o sefydliadau er elw

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau, a ddaeth ben am 9am ddydd Llun, 30 Ionawr 2023

**CADEIRYDD**